# Cofnodion Cyfarfod 6/3/2025

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Moira Mai, Jacqueline Allen, Ken Edwards, Rhys Evans, Fiona Hopkins, Huw Symonds, Eric Williams, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Eifion Roberts, Clare Mackintosh ac Eluned Jones.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans, ac fe gyfeiriodd iddi gynrychioli'r Cyngor Tref yn Noson Lawen Theatr Derek Williams. Anogodd pawb i roi adborth i'r Theatr ar ei rhaglen o weithgareddau.
2. **Buddiant:** Datganwyd buddiant gan y Cyng Dilys Evans, Rhys Evans a Huw Symonds yn eitem 9.3 (ceisiadau ariannol).
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 6/2/25.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**
    i. Tomen y Bala: Cytunwyd i wneud trefniadau i symud meinciau i'r Domen ar ddechrau Ebrill, ac fe adroddwyd fod y drafodaeth gyda'r Clwb Rotari ar feinciau ychwanegol yn parhau. Nodwyd derbyn cyfraniad ariannol gan Gyngor Gwynedd i gynnal a chadw'r Domen.
    ii. Cynllun Creu Lle – nodwyd y bydd cyfarfod i drafod y cynllun ar Fawrth 10fed, a chadarnhaodd y Cyng Dilys Evans a Moira Mai y byddent yn mynychu..
    iii. Lloches Bws ger Cae Croes: Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd mewn trafodaeth gyda gosodwyr y llochesi ynglŷn â phanel gwydr coll un o'r llochesi.
    iv. Goleuadau Nadolig: Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi rhoi gostyngiad sylweddol yn y gost o osod y goleuadau, ond bod costau 2025 yn debygol o fod yn uchel.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, a soniodd fod Cyngor Gwynedd wedi rhoi Neuadd Buddug ar werth, fod cynllun torri coed y Stryd Fawr yn symud ymlaen, a bod y cyngor wedi cytuno ar gynnydd treth cyngor o 8.66% am y flwyddyn 2025/2026.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Cytunwyd fod y rhaglen o ddathliadau wedi dod i ben, a diolchwyd i bawb am eu gwaith. Cytunwyd hefyd i dynnu a gwaredu baneri'r dathliadau.

7. **Is-bwyllgorau:**

Is Bwyllgor Bioamrywiaeth: Adroddwyd fod y grŵp wedi cyfarfod, a bod cynlluniau mewn llaw i blannu blodau, gwahanol blanhigion a bocsys gwenoliaid mewn gwahanol rannau o'r dref.
Is Bwyllgor Cyllid: Cytunwyd i drefnu cyfarfod yn ystod mis Mai / Mehefin ar ôl cwblhau'r cyfrifon blynyddol.
Is Bwyllgor Twristiaeth Cynaliadwy: Adroddwyd fod trafodaethau ar y gweill ar drefniadau gwefan y dref.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

Cwmni Pum Plwy Penllyn: Adroddwyd fod y gwaith ar Ganolfan Bro Tegid yn dod yn ei flaen yn dda, a bod rhywfaint o waith mewnol bellach wedi ei gynnwys yn y gwaith (lloriau a chegin etc).
Grŵp Siopau'r Bala: Adroddwyd fod trafodaethau ar y gweill am drefniadau'r Noson Siopa Hwyr i'r dyfodol.

8. **Materion Cynllunio**: Derbyniwyd dogfen 'Cynghorau Cymuned a Thref a'r Sustem Gynllunio' gan Barc Cenedlaethol Eryri, dogfen yn nodi sail i gefnogaeth neu wrthwynebiad cynghorau i gais cynllunio, ac arweiniad ar sut i gyflwyni'r sylwadau hynny i Adran Gynllunio'r Parc Cenedlaethol.

*9.* **Materion Cyllid:**

- **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £5,822.69 yn y cyfri cyfredol, £26,903.39 yn y cyfri cadw a £479.00 yng Nghronfa'r Maer.
- **ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog y Clerc, anfoneb Cwmni Pum Plwy Penllyn am y defnydd o Ganolfan Henblas am y flwyddyn.
- **iii.** Nodwyd derbyn cyfraniad Cyngor Gwynedd tuag at gynnal Tomen y Bala a derbyn ad daliad Theatr Derek Williams am werthiant tocynnau Noson Wobrwyo'r Bala.
- **iv.** Trafodwyd ceisiadau am gymorth ariannol gan fudiadau'r dref, ac fe gytunwyd i gyfrannu fel â ganlyn:
  Eglwys Unedig Tegid a Llanfor (glanhau cofeb Thomas Charles): £100.00
  Urdd Gobaith Cymru Rhanbarth Meirionnydd: £200.00
  Ambiwlans Awyr Cymru: £100.00
  Canolfan Deulu'r Bala (apêl defib): £400.00
  Clwb Badminton y Bala: £25.00
  Llen y Llannau: £100.00
  Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn: £500.00

Theatr Derek Williams: 300.00
Ffermwyr Ieuainc Meirionnydd: £300.00
Cantref: £200.00
Y Cyfnod: £200.00
Canolfan Bro Tegid: £500.00
Teulu'r Berwyn: £350.00

**10. Gohebiaeth:**

i) Parc Cenedlaethol Eryri – Polisi Ail Gartrefi: Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad y Parc Cenedlaethol ar eu polisi ar ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

ii) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth fod Neuadd Buddug yn mynd ar y farchnad, fod y Tim Tacluso Ardal Ni yn y dref ar W/C Mawrth 3ydd. Derbyniwyd dogfennau Arolwg Gwynedd 2025 ac fe anogwyd pawb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Derbyniwyd gwybodaeth fod rhan o Heol Arenig ar gau am gyfnod o Fawrth 5ed oherwydd gwaith hanfodol gan Dwr Cymru.

iii) Derbyniwyd neges gan Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn am ddyddiadau addas i gynnal cyfarfod, ac fe awgrymwyd Ebrill 23, 28 neu 29 fel dyddiadau posibl.

iv) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwahoddiad i ail ymuno â'r gymdeithas am y flwyddyn ar gost o £444.00. Cytunwyd i ail ymuno. Derbyniwyd gwybodaeth hefyd fod Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru wedi ei ohirio am y tro. Derbyniwyd hefyd ddogfennau defnyddiol ar Drefnu Digwyddiad, ar gadw Cofrestr Asedau ac ar Weinyddu Cyfarfod.

v) Materion Cynnal a Chadw: Derbyniwyd lluniau am chwyn a gordyfiant ger Pont Mwnwgl y Llyn, a gwybodaeth am finiau yn gorlifo ar y Stryd Fawr, ac fe gytunwyd i anfon y wybodaeth ymlaen i'r Cyng Dilwyn Morgan.

vi) Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth fod Awdurdod y Parc wedi cytuno i gadarnhau cyfarwyddyd Erthygl 4 fydd yn rheoli'r defnydd o dai preswyl o fewn y Parc.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

Tynnwyd sylw cyngor fod Gwyn Sion Ifan yn ymddeol o'i swydd fel Rheolwr Awen Meirion, hyn ar ôl 34 mlynedd o wasanaeth i'r dref. Gofynnwyd i'r clerc anfon at Gwyn i ddiolch iddo am ei holl waith dros y dref a'i thrigolion ar hyd y blynyddoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 3 Ebrill 2025.